CYLCHLYTHYR Y GAEAF

Chwefror 2007

Helo, croeso i gylchlythyr cyntaf y clwb. Ei nod yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sydd yn digwydd yn y clwb. Bydd yn cynnwys sut mae'r clwb yn cael ei redeg, rhifau cyswllt pwysig, canlyniadau, gêmau a dyddiadau pwysig.

Trefniadaeth y clwb

Mae'r clwb wedi tyfu yn ei boblogrwydd. Bellach mae gennym fwy na 90 o aelodau wedi'u cofrestru – Plant Ysgol Gynradd rhwng 11 – 6 oed ac mae gennym 3 Tîm (2 Dîm o Dan 11 oed, 1 Tîm o Dan 9 oed) yn cystadlu yng Nghynghrair Iau Caerfyrddin yn chwarae ar y cae pob tywydd yng Nghanolfan Hamdden Tre Ioan. Erbyn Medi 2007 y nod yw y bydd gennym Dîm o Dan 12 (11 bob ochr) yn cystadlu yng Nghynghrair Sir Gaerfyrddin, a 4 Tîm (Dan11, Dan10, Dan9, Dan8) yn cystadlu yng Nghynghrair Iau Caerfyrddin. Ein huchelgais i'r dyfodol yw i weld Timau Teigrod Teilo yn cystadlu ymhob grŵp oedran o Ieuenctid i rai Dan 6 oed.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon bydd yn rhaid gwneud nifer o newidiadau a hynny cyn gynted â phosib. Mae Cymdeithas Pêl-droed Cymru wedi cyflwyno Rheolau Achredu Clwb newydd sy'n orfodol a bydd yn rhaid eu gweithredu erbyn mis Medi nesaf. Mae hyn yn cynnwys canllawiau llym o ran Cofrestru Chwaraewyr, Yswiriant, Hyfforddwyr Cymwys, materion yn ymwneud â lles ac ati. Bydd yr holl newidiadau hyn o fudd mawr i'r Clwb a'r plant, ond mae'n golygu llawer iawn mwy o waith. Mae mawr angen Strwythur Clwb mwy ffurfiol er mwyn trefnu a rhedeg y Clwb.

Ar hyn o bryd mae gan y clwb bwyllgor sy'n cynnwys:
Cadeirydd: David Marshalsay
Is gadeirydd: Helen Scutt
Ysgrifennydd: Aled Llŷr
Trysorydd: Katy Davis

Y bwriad yw newid y strwythur er mwyn galluogi i bethau gael eu gwneud yn fwy effeithlon gan

leihau'r llwyth gwaith ar rai o aelodau o'r pwyllgor.

Y model newydd arfaethedig: Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Swyddog Lles, Swyddog Cyfathrebu (Unigolyn Grantiau/Cyfryngau/Codi Arian), Cydlynydd Hyfforddi. Cyfanswm o 6 Swyddog.

Bwriedir cynnal CBC ar yr 28ain Chwefror pan fydd y swyddogion hyn yn cael eu hethol a phan fydd strwythur newydd y Clwb yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol. Hoffem bwysleisio y byddai rhieni sy'n dymuno cefnogi'r Clwb ond nad ydynt efallai'n hyderus o ran eu gallu i hyfforddi pêl-droed yn ymgeiswyr perffaith ar gyfer y swyddi newydd hyn.

Hyfforddwyr newydd.

Yn ystod Medi a Rhagfyr y llynedd, wnaeth 13 o hyfforddwyr newydd ennill Cymhwyster Lefel Un i Arweinwyr Pêl droed. Bellach mae'r Clwb mewn sefyllfa da o gael 19 o Hyfforddwyr Cymwys – i gyd yn barod i rannu eu sgiliau newydd gyda'r plant. Llongyfarchiadau i'r 13!

Cyllid y Clwb

Codir tâl aelodaeth sy'n help i dalu am addysgu hyfforddwyr, prynu offer newydd yn ôl yr angen a hefyd ffioedd sy'n gysylltiedig â gêmau (ee yswiriant a ffioedd mynediad i gêmau). Gobeithio eich bod o'r farn fod y ffi aelodaeth bresennol yn cynnig gwerth am arian.

Defnyddiwyd arian grant i brynu'r offer gwreiddiol yn 2003 a bellach mae angen offer a chit chwarae newydd.
Ar hyn o bryd mae yna gais am arian grant wedi'i wneud i Gronfa Gymunedol Sportlot a ddefnyddir er mwyn prynu mwy o offer a hefyd mae'r clwb yn y broses o geisio am nawdd gan fusnesau lleol yn ardal Llandeilo.

Canlyniadau a gêmau

Dan 11

Ar hyn o bryd mae 2 dîm dan 11 oed yn cystadlu yng Nghynghrair Iau Caerfyrddin bob yn ail fore Sadwrn gan brofi cryn lwyddiant. Dyma'r ail dymor o bêl droed cystadleuol, ac mae Teigrod Teilo wedi sefydlu ei hunan fel un o'r timoedd cryfaf yn y Gynghrair. Uchafbwynt y Tymor hyd yn hyn oedd y fuddugoliaeth 5 : 3 yn erbyn tîm Saron Dan 11 ar y cae pob tywydd yn Rhydaman. Ar noson wlyb a gwyntog yng nghanol Ionawr aeth y Teigrod ar y blaen o 5 : 1 gyda goliau gan Rhys Williams, Rhun Jones a thair gôl gan Hywel

Llŷr. Roedd y perfformiad ac arddull y chwarae yn glod i'r clwb – dyma'r tro cyntaf i'r tîm hyderus hwn golli yn ystod y tymor.

Dyddiadau nesaf ar y cae pob tywydd: Chwefror 17, Mawrth 3, 17, 31.
Gêm : Amman Utd (Bant), Mawrth 24ain (I'w gadarnhau)

Dan 9 oed
Ar hyn o bryd mae yna un tîm o dan 9 oed yn cystadlu yng Nghynghrair Iau Caerfyrddin yng Nghanolfan Hamdden Tre Ioan Caerfyrddin. Wnaethant gychwyn ar Ragfyr y 9fed gan chwarae deirgwaith hyd yn hyn. Maent yn parhau i gyfarwyddo gyda'r cae pob tywydd ond yn mwynhau eu hunain ac yn chwarae pêl droed da. Hyd yn hyn maent wedi ennill 5 gêm, colli 4 gydag 1 gêm gyfartal. Nawr fod yna fwy o hyfforddwyr cymwys y gobaith yw y bydd yna ddau dîm o dan 9 oed yn gallu chwarae'n rheolaidd.

Dyddiadau pwysig

Chwefror 19eg – Bydd y sesiynau Hyfforddi nos Lun yn ailgychwyn rhwng 6.00 –7.00 pm yng Nghae William. Bydd y tymor yn parhau tan Orffennaf 9fed. Mae'r Gaeaf wedi bod yn anodd oherwydd y tywydd gwael a'r prinder o gaeau pob tywydd yn ardal Llandeilo. Ond gobeithio y flwyddyn nesaf y bydd modd osgoi hyn wrth i gae pob tywydd ynghyd â llif oleuadau gael ei adeiladu yn Ysgol Tregib. Mae'n hen bryd i gyfleuster o'r math hwn ddod a bydd yn cynnig cyfleuster sydd mawr ei angen ar y Clwb Pêl droed a Chlybiau chwaraeon eraill yn ardal Llandeilo!

Chwefror 28ain – CBC, 7.00pm yng Nghlwb Rygbi Cae William.

Cysylltiadau

Hyfforddwyr rhai dan 11 oed
Aled Llŷr ffôn 01558 822339
e bost: aled.llyr@btinternet.com
Mark Swindells, Roderick Davies, Dafydd Rhys, John Eirian

Hyfforddwyr rhai dan 9 oed:
Selby Le Roux ffôn 01558 685951
e bost. selby.leroux@aol.com
Tony Gallefant ffôn 01558 685907
e bost axg@gallafent.com
James McAvoy, Adam Hathaway, Craig Jones, Penny Thomas,

Hyfforddwyr rhai dan 7 oed
Teresa Williams ffôn 01550 777741
e bost: Williams.gors@tesco.net
Hazel Williams, Edward Morgan, Richard Morgan, Siwan Roberts, Maureen Rhys, Byron Daly

Cyfeiriad gwefan y clwb:
www.teigrodteilo.org.uk

Mae Roderick Davies wedi creu gwefan newydd i'r clwb. Rydym yn gobeithio fydd y safle yn rhoi gwybodaeth i chi am Gêmau, Sesiynau Hyfforddi, Cyfarfodydd, Digwyddiadau Cymdeithasol ac unrhyw newyddion perthnasol.

Rhifyn nesaf : Gwanwyn 2007